

HANES Y BUGEILIAID

Adnodau agoriadol:

A daeth y Gair yn gnawd a phreswyllo yn ein plith, yn llawn gras a gwirionedd; gwelsom ei ogoniant ef, ei ogoniant fel unig Fab yn dod oddi wrth y Tad.

Gogoniant yn y goruchaf i Dduw, ac ar y ddaear tangnefedd ymhlith dynion sydd wrth ei fodd.

Gweddïwn:

Yng nghlyw ac yn ysbryd y newyddion da o lawenydd mawr, cynorthwya ni fel teulu'r ffydd i fynd ar daith i Fethlehem Jwdea i weld yr hyn a wnaethpwyd. Agor ein calonau ger bron y baban Iesu a gad inni ei addoli mewn prydfferthwch sanctaidd. Amen.

Emyn: 431 – *Mae'r nos yn fwyn ym Methlehem*

Darlleniad: Luc 2: 1-7

Emyn: 455 – *Yn nhawel wlad Jwdea dlos*

Gweddïwn:

Diolchwn iti, ein Tad nefol, am neges y Nadolig sy'n sôn am brofiadau'r bobl gyffredin yn gweld y baban Iesu yn gorwedd yn y preseb. Yn dy drugaredd, cymhwysa ninnau hefyd i deithio i'r stabl yng nghwmni'r bugeiliaid i weld y Rhyfeddod mawr, i amgyffred dirgelwch ei ddyfodiad i'n byd, ac i ymwylbod o'n braint i ymostwng ger ei fron a'i addoli.

Diolchwn fod Iesu'n gwybod am y profiad o fyw mewn teulu a gwybod am etifeddiaeth gyfoethog ei genedl. Do, fe aeth fel ninnau i gapel y pentre' i ddarllen yr Ysgrythurau sanctaidd, i ganu salm ac i'th addoli. Gwyddai hefyd am weithio yng ngweithdy'r saer a byw yng nghanol bywyd cyffredin pobl Nasareth. Yn wir, bu fyw fel ninnau gan brofi o

lawenydd a thristwch bywyd. O Dad, diolchwn am Iesu ein brawd sy'n abl i gydymdeimlo â'n holl wendidau ac sy'n gyfaill hawdd ei gael mewn cyfyngder. Dyro inni ffydd i gredu hyn ac ysbryd ymddiried yn Iesu Grist fel ein Cyfaill a'n Ceidwad.

*Dyma Geidwad i'r colledig,
Meddyg i'r gwywedig rai;
dyma un sy'n caru maddau
i bechaduriaid mawr eu bai;
diolch iddo
byth am gofio llwch y llawr.*

Yng nghanol tymor llawenydd geni ein Ceidwad, cadw ni rhag anghofio fod:

*'Rhywrai heb aelwyd
a rhywrai heb dân,
a rhywrai heb galon
i ganu cân.'*

Ein Tad trugarog, tosturia wrth y rhai sy'n teimlo fod yr hen hyfrydwch wedi darfod ac sy'n methu profi o orfoledd dy iachawdwriaeth oherwydd poenau corfforol neu wewyr meddyliol. Yn dy dosturi esmwytha eu gofidiau ag eli dy gariad a dyro iddynt nerth dy ras i ail gydio mewn bywyd. Diolchwn am bawb sy'n cyfieithu dy gariad yn gymwynasau hael a da. Gwna ninnau hefyd yn Samariaid trugarog. Maddau holl anwiredd ein dweud a'n gwneud, yn enw Iesu Grist, ein Harglwydd. Amen.

Emyn: 438 – *Pan oedd bugeiliaid gyda'u praidd*

Llefarydd:

Mathew a Luc yn unig sy'n cofnodi hanes geni Iesu Grist ym Methlehem Jwdea. Wedi'r geni, y mae Mathew yn sôn am ymweliad pobl wybodus â'r baban Iesu. Disgrifir hwy fel doethion yn yr hen gyfieithiad ac fel seryddion yn y cyfieithiad newydd, ac yn ôl Mathew, daethant o'r dwyrain, *'a phan welsant y plentyn gyda Mair ei fam, syrthiasant i lawr*

a'i addoli, ac wedi agor eu trysorau offrymasant iddo anrhegion, aur, thus a myrr.'

Yn wahanol i Mathew ac yn nodweddiadol o Luc, y mae'n dewis rhoi hanes ymweliad pobl gyffredin â'r baban Iesu yn gorwedd yn y preseb. Gwerinwyr yn cyflawni gwaith cyffredin oedd y bugeiliaid - yn ymgodymu â gofalon y llafurwr amaethyddol. Ond un noson pan oeddynt wrth eu gwaith, gadawsant eu praidd i weld y rhyfeddod bychan ym mreichiau ei fam.

Mae hanes y bugeiliaid yn ymweld â'r baban Iesu ym Methlehem Jwdea yn gyfarwydd inni i gyd – efallai yn rhy gyfarwydd fel ein bod mewn perygl o golli'r ymdeimlad o ryfeddod sy'n perthyn i'r stori. Meddai rhyw nofelydd, '*Ni ellwch ddadlau yn erbyn awyrgylch.*' I'r rhan fwyaf ohonom, y mae i'r Nadolig ei awyrgylch digamsyniol, a gobeithio na wnawn byth golli'r ymdeimlad o ryfeddod wrth wrando ar yr hen hanes sy'n fythol newydd.

*Rhyfeddu 'rwyf, O Dduw
dy ddyfod yn y cnawd;
rhyfeddod heb ddim diwedd yw
fod Iesu imi'n Frawd.*

Gadewch inni wrando ar Luc yn adrodd hanes y bugeiliaid wrthym.

Darlleniad: Luc 2: 8-20

Emyn 459 – Heddiw llawenychwn

Llefarydd:

Yn gyntaf, yr angylion yn moli Duw. '*Yn sydyn ymddangosodd gyda'r angel dyrfa o'r llu nefol yn moli Duw.*' neu yn ôl un cyfieithiad yn Saesneg, '*armies of heaven, praising God.*' Nid un angel sydd yma ond lliaws. Nid deuawd na phedwarawd sydd yma ond '*tyrfa o'r llu nefol yn moli Duw.*'

Pan glywn rywun yn canu yn ardderchog, fe ddywedwn ei fod yn canu fel angel. Beth yw nodweddion canu fel angel? Yr ateb yng nghyswllt yr hanes hwn yw canu i'r Arglwydd. Wel, dyma yn union wnaeth y dyrfa fawr o angylion ar lethrau Bethlehem - moliannu Duw a chanu, "*Gogoniant yn y Goruchaf i Dduw, ac ar y ddaear tangnefedd ymhlith y rhai sydd wrth ei fodd.*"

Ond beth yw achos y *fath llawenydd a'r canu gorfoleddus?* Yn syml, geni Mab Duw yn faban bach. Testun cân yr angylion yw'r newyddion da o lawenydd mawr sef "*ganwyd i chwi heddiw yn nhref Dafydd, Gwaredwr, yr hwn yw'r Meseia*" Fe ddywedodd rhywun mai plentyn y newyddion da yw llawenydd, ac mor wir yw hynny. Achosi tristwch a dinistr a wna newyddion drwg, ond y mae newyddion da yn creu llawenydd yn ein calon ac yn rhoi gwên ar ein hwynebau.

Yn hanes y bugeiliaid, y mae Luc yn sôn am enedigaeth Iesu fel "*newyddion da o lawenydd mawr.*" Mae genedigaeth baban bach gan amla' yn destun llawenydd, ac yn arbennig i'r fam a'r tad a'r teulu, ond mae genedigaeth Iesu Grist yn destun llawenydd i deulu'r ffydd ymhob man - nid yn unig i ni yn y capel hwn ond ymhob man lle mae pobl yn addoli Duw, ac yn ymateb yn ddiolchgar i'r newyddion syfrdanol geni Gwaredwr i'n byd.

Y mae'r gair 'Gwaredwr' yn ein hatgoffa fod ein hiachawdwriaeth a'n llawenydd ynghlwm wrth berson yr Arglwydd Iesu Grist. Mynegir hyn yn glir yn y garol,

O Faban bach, fy Ngheidwad mawr.

Mae 'nghalon iti'n grud yn awr.

Yn y cyfarchiad, '*O Faban bach*' edrychwn gydag anwylddeb ar ddiniweidrwydd y baban Iesu ym mreichiau ei fam, ond yn yr ail gyfarchiad, '*fy Ngheidwad mawr*' edrychwn drwy'n dagrau ar Iesu'r gŵr ifanc croeshoeliedig ar bren.

Y mae mawredd cariad Duw tuag atom yn Iesu Grist yn ymestyn o'r crud i'r groes a thu hwnt, ac unwaith y sylweddolwn hyn, ni allwn wedyn

ond canu gyda'r angylion,"*Gogoniant yn y Goruchaf i Dduw, ac ar y ddaear tangnefedd ymhlith y rhai sydd wrth ei fod.*"

Yn ail, y bugeiliaid yn ofni. 'A safodd angel yr Arglwydd yn eu hymyl a disgleiriodd gogoniant yr Arglwydd o'u hamgylch, ac ofni yn ddirfawr a wnaethant.' neu yn ôl y cyfieithiad newydd, 'a daeth arswyd arnynt.' Mae'r gair 'arswyd' yn swnio'n gryfach na'r gair 'ofn', ac yn awgrymu fod y bugeiliaid wedi dychryn yn arw. Mae'r geiriau 'dychryn', 'ofn' ac 'arswyd' yn ein hatgoffa am brofiadau cynnar bywyd, megis cerdded allan yn nhywyllwch y nos - ofn real iawn i blentyn bach. I eraill ohonom, y mae gweld pry copyn neu lygodyn fawr yn ddigon i'n rhewi yn y fan a'r lle! Mae'r ofnau yn rhan o'n profiad o dyfu i fyny, ond y mae ofnau dwysach a mwy difrifol i'w cael, megis ofn tlodi, ofn prinder bwyd ac ofn unigrwydd. Clywsom ddweud, 'Tlodi yw bod heb ddim, unigrwydd yw bod heb neb.' Y mae ofnau eraill hefyd, megis ofn marw, ofn colli anwyliaid ac ofn colli iechyd, ac yn y dyddiau enbydus sydd ohoni, ofn rhyfel byd eto. Ond yn yr hanes dan sylw, y mae Luc yn sôn am ofn tra gwahanol, sef ofn y bugeiliaid wrth weld "*gogoniant yr Arglwydd yn disgleirio o'u hamgylch.*" Nid ofni'r tywyllwch mae'r bugeiliaid na chwaith ofni ei gilydd, ond ofni Duw. Ofn meidrolion sydd yma gerbron yr Anfeidrol. Y mae disgleirdeb gogoniant yr Arglwydd yn eu dallu a'u dychryn, ond nid yw hynny yn para'n hir, oherwydd y mae angel yr Arglwydd yn tawelu eu hofnau trwy ddweud, "*Peidiwch ag ofni.*"

Mae'r geiriau hyn neu eiriau cyffelyb yn digwydd tua saith deg o weithiau yn y Beibl, ac yn aml iawn y maent yn eiriau cyntaf gan Dduw neu angel fel yn hanes y bugeiliaid. Yn sicr, un o'n gelynyon mwyaf yw ofn - ofn yfory, ofn yr anwybod, ofn methiant, ofni ein gilydd, ac yn blaen. Fel y gwelwn yn y byd, ofn sydd wrth wraidd tyndra rhwng cenhedloedd â'i gilydd ac ofn sy'n cadw gelyniaeth yn fyw rhwng pobl â'i gilydd a chynhyrchu rhyfeloedd dieflig. Ond y mae gan Dduw feddyginiaeth i'r afiechyd marwol hwn, sef ei gariad anfeidrol tuag atom yn Iesu Grist. Gwelwyd y cariad hwn ar waith ym mherthynas Iesu Grist â'i ddisgyblion. Ar ôl cyhoeddi wrth y disgyblion fod y groes yn dod i'w ran, synhwyrodd Iesu eu pryder ar unwaith, ac fe'u cysurodd drwy ddweud, "*Peidiwch â gadael i ddim gynhyrfu'ch calon. A thro arall,*

dywedodd wrth ei ddisgyblion, *'Yn y byd fe gewch orthrymder, ond codwch eich calon, yr wyf fi wedi gorchfygu'r byd.'* Y mae Ioan a Paul hefyd yn ategu hyn yn eu llythyrau. Tystiodd Ioan, *'Nid oes ofn mewn cariad, ond y mae cariad perffaith yn bwrw allan ofn.'* Yn yr un modd, dystiodd Paul nad, *'ysbryd sy'n peri llwfrdra a roddodd Duw i ni, ond ysbryd sy'n peri nerth a chariad a hunanddisgyblaeth.'*

Ydi, y mae ofn yn ein gwneud yn llai na ni'n hunain. Y mae ofn yn gallu gwneud dyn cryf yn dreisiwr a dyn gwan yn llwfrgi, ond y mae cariad Duw yn abl i'n *'gwneud yn fwy na choncwerwyr trwy'r hwn a'n carodd.'* Am hynny, *peidiwn ag ofni a phryderu*, ond ymddiried yn llwyr yn ein Gwaredwr a anwyd ym Methlehem Jwdea.

Ac yn olaf, y bugeiliaid yn moliannu. Medd Luc, *'Dychwelodd y bugeiliaid gan ogoneddu a moli Duw am yr holl bethau a glywsant ac a welsant.'* Roeddynt wedi bod yn oedfa'r stabl yn gweld y baban Iesu a'i addoli, a chymaint oedd y fendith, fel iddynt barhau i ogoneddu Duw wrth deithio yn ôl i'w gwaith. Ni allent beidio â sôn amdano, *'a rhyfeddodd pawb'*, medd Luc, *'at y pethau a ddywedodd y bugeiliaid wrthynt.'* Dyma'r daith genhadol gyntaf a wnaed dros yr Iesu, ac yr oedd hi'n daith lwyddiannus iawn! Gadewch i ninnau hefyd barhau'n haddoliad ar ôl yr oedfa, fel y bydd naws a bendith Duw ar ein dathlu eto eleni - ein dathlu ar aelwyd ein Heglwys ac ar ein haelwydydd gartref weddill y dydd. Ac i'r Arglwydd Iesu Grist, ein Gwaredwr bendigedig y byddo'r clod a'r gogoniant, yn awr, ac yn oes oesoedd. Amen

Emyn: 447 – Engyl glân o fro'r gogoniant

Y Fendith.

Rhown glod i'n mab bychan ar liniau Mair wiwlan
 Daeth Duwdod mewn baban i'n byd.
 Ei ras O derbyniwn, ei haeddiant cyhoeddwn
 A throsto Ef gweithiwn i gyd. Amen.